# Hysbysiad o Gynnig

## CYNGOR SIR Y FFLINT

## LINDEN AVENUE, BEECHWOOD AVENUE A ST DAVID'S DRIVE, CEI CONNAH

## GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG I AROS AR UNRHYW ADEG A DIM STOPIO

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cynnig gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Deddf Rheoli Traffig 2004, Rhan IV o Atodlen 9, a'r holl bwerau galluogi eraill, gyda'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013, i gyflwyno:-

1. Cyfyngiadau 'Dim Aros ar Unrhyw Adeg'-:

    a. Ar ddwy ochr Linden Avenue yng nghyffiniau Ysgol Bryn Deva, Cei Connah
    b. Ar ddwy ochr St David's Drive yng nghyffiniau eiddo rhif 1 a 10
    c. Ar gyffordd Beechwood Avenue a Linden Ave, Cei Connah
    d. Ar gyffordd St David's Drive a Linden Avenue, Cei Connah

2. Dim Stopio ar y Marciau Ysgol Cadwch yn Glir. Dydd Llun - Dydd Gwener 8am tan 5pm

    a. Ar ochr Ogledd Ddwyreiniol Linden Avenue, drws nesaf i Ysgol Bryn Deva, Cei Connah.
    b. Ar ochr Ogledd Orllewinol St David's Drive, drws nesaf i Ysgol Bryn Deva, Cei Connah.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol 'Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil a Chyfuno) 2013' yn parhau mewn grym.

Er diogelwch yn ystod Pandemig Covid-19, os ydych yn dymuno gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, cynlluniau'n dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt gan y cynnig a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn, fe'ch cynghorir i'w darllen ar ein gwefan ar www.siryfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoliadau Traffig neu gallwch ofyn am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, a'r sail ar gyfer gwrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn dydd Gwener 4 Chwefror 2022 gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TRO/JB/47.

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint
CH7 6NR.
Dydd Gwener 14 Ionawr 2022

# CYNGOR SIR Y FFLINT

# LINDEN AVENUE, BEECHWOOD AVENUE A ST DAVID'S DRIVE, CEI CONNAH

# (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 47 GORCHYMYN 202-

**Katie Wilby,**

**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**

**Neuadd y Sir,**

**Yr Wyddgrug,**

**Sir y Fflint,**

**CH7 6NF**

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**LINDEN AVENUE, BEECHWOOD AVENUE A ST DAVID'S DRIVE, CEI CONNAH**

**(GWAHARDD A CHYFYNGU AR**

**AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**

**(GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 47 GORCHYMYN 202-**

Mae Cyngor Sir y Fflint, wrth ddefnyddio'i bwerau dan adrannau 1 (1), 2 (1)(2), 4 (2)(3) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

**ADRAN 1 - RHAGARWEINIOL**

**Enwi a chychwyn**

1. Fe ddaw'r Gorchymyn hwn i rym ar XX XXX 202- a gellir ei alw yn Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint LINDEN AVENUE, BEECHWOOD AVENUE A ST DAVID'S DRIVE, CEI CONNAH (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) (Diwygiad Rhif 47) 202-

2. Fe ddaw i rym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, mae Map Atodlen AU72 Diwygiad Taflen Rhif 2: yn dirymu Map Atodlen AU72 Diwygiad Taflen 1 a'r holl atodlenni map eraill ynghyd â'r atodlenni map a grybwyllir uchod a'r cynlluniau y cyfeirir atynt yn Atodlenni'r Gorchymyn hwn, yn cael eu hymgorffori yng Ngorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) 2013.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

4. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodlen gyda rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw, ac mae unrhyw gyfeiriad at gynllun yn cyfeirio at gynllun wedi'i ymgorffori yn y gorchymyn hwn.

**ATODLEN 1**
**Cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg**
**Cei Connah**

| Enw'r Ffordd | Atodlen Map | Diwygiad Taflen |
|---|---|---|
| Linden Avenue | AU72 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |
| Beechwood Avenue | AU72 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |
| St Davids Drive | AU72 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |

**ATODLEN 2**
**'Dim Aros' ar y marciau 'Ysgol Cadwch yn Glir' rhwng 8am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, gan gynnwys y dyddiau hynny.**
**Cei Connah**

| Enw'r Ffordd | Atodlen Map | Diwygiad Taflen |
|---|---|---|
| Linden Avenue | AU72 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |
| St Davids Drive | AU72 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |

**RHODDWYD SÊL GYFFREDIN**

**CYNGOR SIR Y FFLINT)**

yn y fan hon )

y xx diwrnod o xxxx 202-)

yng ngŵydd:- )

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG (LLYWODRAETHU)**

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**LINDEN AVENUE, BEECHWOOD AVENUE A ST DAVID’S DRIVE, CEI CONNAH**

**GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG I AROS AR UNRHYW ADEG A DIM STOPIO**

Datganiad o’r Rhesymau dros argymell gwneud y Gorchymyn

Bydd Cyflwyno’r Cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg a Dim Stopio yn gwella diogelwch cerddwyr a holl ddefnyddwyr y ffordd drwy gael gwared ar gerbydau wedi’u parcio mewn lleoliadau allweddol a gwella llif y traffig ger Ysgol Bryn Deva. Bydd hefyd yn sicrhau bod mynediad ar gael i drigolion lleol, bydd yn atal rhwystrau, yn cynnal gwelededd ger y cyffyrdd ac yn sicrhau nad yw’r cyffyrdd wedi’u rhwystro gan gerbydau wedi eu parcio.

Mae parcio ar gyffyrdd, boed llinellau melyn yno neu beidio, yn drosedd ac mae’r cyfyngiadau hyn yn rhwystr gweledol i atgyfnerthu'r neges hon. Ar hyn o bryd, pe bai cerbydau’n parcio o fewn 10 metr i gyffordd, gallai hynny gael ei ystyried yn drosedd ac felly byddai'n destun camau gorfodi gan Heddlu Gogledd Cymru. At hynny, mae Rheolau’r Ffordd Fawr yn nodi na ddylai cerbydau barcio ger neu ar gyffordd oherwydd gallen nhw achosi rhwystr a pheryglu diogelwch defnyddwyr y ffordd.

Prif bryder yr Awdurdodau yw diogelwch a lles y cyhoedd, yn cynnwys Plant sy’n mynd a dod o’r Ysgol. Drwy ddarparu amgylchedd diogel i gerddwyr, mae hyn yn lleihau’r perygl y bydd damweiniau’n digwydd rhwng defnyddwyr diamddiffyn a cherbydau modur a bydd yn annog mwy o ddisgyblion i gerdded neu feicio i Ysgolion yn yr ardal.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau â’i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae’r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr ffordd diamddiffyn ynghyd â gwella amwynder yr ardal.


**Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn arfaethedig**



Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, CH7 6NF
Sir y Fflint.
Dydd Gwener 14 Ionawr 2022.

**COD ARDAL:AU72**
**AREA CODE:AU72**

**Sheet Revision No: 1**
**Rhif Adolgiad Y Ddalen: 1**
**Sheet active from: 1 October 2013**
**Dalen yn weithredol o: 1 Hydref 2013**




**Scale: 1:1250**
**Graddfa: 1:1250**

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386

Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386

## The Flintshire County Council
## (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places) (Civil Enforcement and Consolidation) Order 2013

## Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
## (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) 2013

Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF


Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF

AREA CODE: AU72
COD ARDAL: AU72

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Sheet Revision No:2
Rhif Adolgiad Y Ddalen: 2

Sheet active from: xxxxxx 202
Dalen yn weithredol o: xxxxx 202




Scale: 1:1250
Graddfa: 1:1250

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office ©Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence No. 100023386


Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi ©Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif trwydded 100023386

# The Flintshire County Council
# (Prohibition and Restriction of Waiting and Loading and Parking Places)
# (Civil Enforcement and Consolidation) (Amendment No 47) Order 202X

# Gorchymyn Cyngor Sir Y Fflint
# (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Llwytho a Mannau Parcio)
# (Gorfodi Sifil a Chydgyfnerthu) (Gwelliant 47) 202X

Flintshire County Council
Environment Directorate
County Hall
Mold
CH7 6NF

Cyngor Sir Y Fflint
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Neuadd Y Sir
Yr Wyddgrug
CH7 6NF




Katie Wilby

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Streetscene

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: NGW

CHECKED BY: LS

SCALE: 1: NTS @ A3

NAT. GRID REF: 328899 369475

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Ysgol Bryn Deva School
Linden Avenue Connahs Quay

Cyfyngiadau Aros Arfaethedig
Proposed Waiting Restrictions
(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER
HT/22/YBDS | 201 | P1